





Dyma

MAETHFLICS



Rydych ar fin cwrdd â
chymeriad o'r gorffennol



Ei enw yw Maethflics ac mae e'n fardd.

Chwe chan mlynedd yn ôl yr oedd beirdd yn bobl bwysig tu hwnt a chanddynt dipyn o swyddi gwahanol i'w gwneud. Fe fyddent yn difyrru eu cynulleidfaoedd gan adrodd storïau - storïau a fyddai'n adrodd hanes y bobl.

Mewn cyfnod pan nad oedd y rhan fwyaf o bobl yn medru darllen ac ysgrifennu, roedd y beirdd yn sicrhau nad oedd hanes yn cael ei anghofio. Fe fyddai'r beirdd hefyd yn cyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth ac yn aml fe'u disgrifiwyd yn swynwyr oedd yn medru rhagddweud y dyfodol.



Celtiaid yw Maethflics a'i bobl. Ers blynyddoedd roedd y Celtiaid yn rheoli rhan helaeth o Ewrop o'r Iwerddon i Wlad Pwyl, o'r Iseldiroedd i Dwrci. Yna, ym Mhrydain fe ddaeth cyfres o oresgyniadau â phobl newydd. Oll yn eu tro fe ddaeth Rhufeiniaid, Sacsoniaid a Normaniaid. Fe gymysgodd nifer o'r Celtiaid â'r goresgynwyr tra bod eraill wedi'u gwthio allan tua'r gorllewin i Gymru, i Gernyw, i Ynysoedd Gorllewinol yr Alban a'r Iwerddon. Yn yr ardaloedd yma mae iaith henafol y Celtiaid yn goroesi.




Mae Maethflics yn sôn am gyfres o chwedlau a gasglwyd at ei gilydd mewn llyfr o'r enw'r Mabinogi. Er bod y storïau yn hynafol ni chyhoeddwyd y llyfr nes y 19eg ganrif.

Fe basiwyd y chwedlau o fardd i fardd - pob un yn eu dysgu ar gof ac ni ysgrifennwyd hwy tan flynyddoedd yn ddiweddarach.

Yn yr 1820au, fe gasglwyd naw o'r' chwedlau yma at ei gilydd i greu'r Mabinogi.





Amser

Gweithgaredd



Dyfeisiwch stori!

Mae Maethflics yn sôn am y Mabinogi. Mae'r casgliad hwn o chwedlau hynafol yn cynnwys storïau am gewri, dreigiau ymosodol, llewod cyfeillgar, syrthio mewn cariad a chymaint yn fwy.

Mae nifer o'r cymeriadau yn y chwedlau yn debyg i ffurfiau cynnar o uwch-arwyr gyda galluoedd arbennig a ellir eu defnyddio i achub pobl sydd mewn perygl - neu i beryglu pobl. Mi all ambell i glywed pob smic o sŵn sy'n cael ei wneud, tra bod eraill yn gallu gwneud hud a lledrith, neu weddnewid eu hunain i fod yn anifeiliaid.



Mae rhai ar gyrch i ddarganfod rhywbeth neu rywun sydd i bob golwg yn amhosib. Darllenwch am y Mabinogi ac ystyriwch pa gymeriadau yr hoffech eu rhoi yn eich stori chi. Yna ysgrifennwch eich stori chi - degfed chwedl y Mabinogi.

Adroddwch eich stori!

1



Roedd beirdd fel Maethflics yn adrodd storïau i bobl nad oedd yn medru darllen. Heb y beirdd, fe fyddai storïau'r Mabinogi a channoedd o chwedlau eraill wedi mynd yn angof ganrifoedd yn ôl a dim ond oherwydd y cawsant eu pasio o berson i berson y maent wedi goroesi hyd heddiw.

2

Fe all y stori a wnaethoch chi ei hysgrifennu cael ei phasio ymlaen yn awr. Gnewch yn siŵr eich bod yn cofio'r hyn sy'n digwydd yn eich stori ac adroddwch hi i'ch ffrindiau. Wedyn, nodwch os ydyn nhw yn medru ei gofio. Cymrwch hi mewn tro i adrodd eich storïau.



3

Roedd beirdd fel Maethflics yn defnyddio cerddoriaeth yn aml i wneud eu storïau yn fwy dramatig. Defnyddiwch gerddoriaeth yn y bylchau rhwng rhannau gwahanol o'ch stori neu ei ganu'n ysgafn yn y cefndir tra'ch bod yn siarad. Ystyriwch pa fath o offerynnau y medrwch eu canu tra'ch bod yn adrodd eich stori.



Cwricwlwm



Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

- *Mae ieithoedd yn ein cysylltu.
- * Mae deall iaith yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas
- *Mae mynegi ein hunain drwy iaith yn allweddol i gyfathrebu.
- *Mae llythrennedd yn cynnau'r dychymyg ac yn ysbrydoli'r ddawn greadigol.



Celfyddydau mynegiannol

Mae gwaith creadigol yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, yn defnyddio'r synhwyrâu, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.